

Adolygiad o Wasanaethau Cymraeg Archfarchnadoedd

Bellach mae gennym Fesur Iaith sy'n golygu bod gan y Gymraeg statws swyddogol. Er gwaethaf hynny mae'r Gymraeg yn parhau i gael ei diystyru a'i rhoi o'r neilltu. Rydyn ni'n dal i dderbyn cwynion o bob cwr o Gymru am ddiffyg gwasanaethau Cymraeg o fewn busnesau a sefydliadau, nifer ohonynt yn cyfeirio at sefydliadau a ddylai fod eisoes yn cynnig gwasanaeth Cymraeg.

Mae angen i archfarchnadoedd fynd ymhellach na chodi ambell i arwydd mewn siop er mwyn dangos cydnabyddiaeth arwynebol tuag at y Gymraeg. Dylai'r Gymraeg fod yn hollbresennol a chanolog i bob rhan o fywyd ein gwlad, nid yn rhywbeth ymylol. Mae'r enghreifftiau yn yr adolygiad hwn yn dystiolaeth glir nad yw archfarchnadoedd yn ystyried y Gymraeg mewn gwirionedd ac nad yw agweddau tuag at y Gymraeg wedi newid digon.

Marks & Spencer

“Mae cyhoeddiadau drwy ein huchelseinyddion yn Saesneg”

“Mae ein hysbysebion yn uniaith Saesneg yn y wasg Gymreig”

“Nid ydym yn cadw cofnod o sgiliau iaith Gymraeg unrhyw aelod o staff”

“Rydym yn cydnabod na ddylai’r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg yng Nghymru. Rydym yn credu ei bod yn arfer busnes da i gynnig gwasanaethau yn newis iaith ein cwsmeriaid ble mae’n rhesymol bosib i wneud hynny.”

Arwyddion

“Mae’r rhan fwyaf o’n harwyddion parhaol yn ddwyieithog. Byddwn yn sicrhau bod pob arwydd newydd yn gwbl ddwyieithog, gan gynnwys arwyddion dros dro, pan fydd hynny’n bosibl.”

Peiriannau Hunan-Wasanaeth

“Mae ein peiriannau hunan wasanaeth yng Nghymru yn ddwyieithog.”

Cyhoeddiadau

“Mae ein cyhoeddiadau print yn Saesneg yn unig.

Ar hyn o bryd, mae cyhoeddiadau drwy ein huchelseinyddion yn Saesneg, fodd bynnag, byddwn yn ystyried defnyddio’r Gymraeg ar y rhain yn y dyfodol pan fo hynny’n bosibl.

Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg yn ein cyhoeddiadau sain yn ein siopau yn y dyfodol trwy ddarparu sgript i siaradwyr Cymraeg lleol ei defnyddio pan fyddan nhw’n hyderus i wneud hynny.”

Labeli Bwyd

“Mae ein labeli bwyd yn Saesneg yn unig, ond rydym yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu mwy o Gymraeg wrth becynnu bwyd.”

Cynnyrch Lleol

“Rydym yn defnyddio cynnyrch Cymreig lle bynnag y bo modd, nid yn unig oherwydd ei fod yn fuddiol i gyflenwyr lleol, mae’n cyd-fynd yn dda â’n polisi o wneud ein bwyd mor ffres â phosibl.”

Deunydd Hyrwyddo a Marchnata

“Yn gyffredinol, mae ein hysbysebion yn uniaith Saesneg yn y wasg Gymreig. Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg wrth hysbysebu mewn cyhoeddiadau Cymreig drwy wneud asesiad o anghenion cwsmeriaid lleol pan fyddwn yn agor siopau newydd yn y dyfodol.”

Gohebu â Chwsmeriaid

“Rydym yn ateb galwadau ffôn â chyfarchiad Saesneg, ond mae pob aelod o staff yn gallu trosglwyddo ymholiad at rywun sy'n gallu siarad Cymraeg. Ar hyn o bryd, yn gyffredinol, rydym yn ysgrifennu at bobl yn Saesneg, ond rydym yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. Rydym yn cydnabod rhyddid ein cwsmeriaid i ohebu yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn unol â'u dewis iaith lle bo hynny'n ymarferol bosibl.”

Staff

“Nid ydym yn gallu sicrhau gwasanaeth Cymraeg, ond rydym yn croesawu defnydd o'r Gymraeg gan staff sy'n gallu gwneud hynny. Rydym yn annog staff sy'n gallu siarad Cymraeg i wisgo bathodyn M&S sy'n dangos eu bod nhw'n gallu siarad Cymraeg pan fyddant wrth eu gwaith.

Nid ydym yn asesu pa sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer unrhyw swydd yn ein sefydliad ar hyn o bryd, ac nid ydym yn cadw cofnod o sgiliau iaith Gymraeg unrhyw aelod o staff. Byddwn yn ystyried cael hysbysebion swyddi yn ddwyieithog trwy gwblhau asesiad lleol o ardaloedd ac anghenion cwsmeriaid.

Byddwn yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i gynnig cyrsiau Cymraeg i gydweithwyr sydd â diddordeb.

Rydym yn cydnabod rhyddid pob aelod o staff a'n cwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a disgwyliwn i staff barchu dewisiadau ieithyddol eu gydweithwyr a chwsmeriaid.”

Gwasanaethau Eraill

“Mae ein gwefan yn Saesneg yn unig, ac nid yw ein harwyddion ar ein cerbydau yn ddwyieithog.”

“Dim cardiau Nadolig Cymraeg yn @marksandspencer yn Wrecsam heddiw”

Rhwystro gwerthiant Marks and Spencer

Cyhoeddwyd gan bethanwilliams ar Sad, Awst 3rd am 1.04 yp Caerfyrddin Penfro Hawliau i'r Gymraeg



Daeth busnes Marks and Spencer Caerfyrddin i stop am hanner awr prynhawn yma (dydd Sadwrn 3ydd o Awst) wedi i aelodau o Gymdeithas yr Iaith wrthod talu am eu siopa.

Llanwyd trolis gyda thuniau a jariau o fwyd o'r siop a mynd â nhw at y manau talu cyn i'r ymgyrchwyr ddweud nad oedden nhw am brynu'r bwyd am nad oedd Marks and Spencer wedi cadw at yr addewid y byddai arwyddion parhaol y siop i gyd yn ddwyieithog wedi iddynt gael eu hadnewyddu.

Meddai Hazel Charles Evans, un o drefnwyr ymgyrch Cymdeithas yr Iaith i Gymreigio'r siop:

“Mae nifer o bobl yr ardal yn siopa yma ac eisiau gwneud hynny yn Gymraeg, dylai Marks and Spencer barchu hynny. Heddiw fe ddaethon ni yma i wneud ein siopa a gweld nad oes unrhyw beth mawr wedi newid ers i ni gwrrdd gyda nhw – mae gwasanaeth Gymraeg y siop yn dal i fod yn fothiant a ni wedi ein siomi, felly fe wnaethon ni wrthod prynu beth oedden ni wedi bwriadu gwneud.”

“Dydy M&S ddim yn dangos unrhyw barch tuag at eu cwsmeriaid yma yng Nghymru ac mae hynny wedi achosi anniddigrwydd mawr yn nhre Caerfyrddin a'r cyffiniau. Dim ond pythefnos yn ôl roedd yn agos i 100 o brotestwyr yn amgylchynu'r siop yma gyda phants ac yn dweud wrth Marks and Spencer fod eu polisi iaith yn 'pants'. Trwy weithredu fel hyn bydd Marks and Spencer yn dechrau gweld fod drwgdeimlad, a gobeithio y gallwn ni ddoi yma i siopa eto. Doedden ni ddim am darfu ar gwsmeriaid na staff y siop, ond roedden nhw'n deall ein cwyn.”

Basged Siopa

Gweld fasged.

Newyddion

Pantycelyn - ymateb i benderfyniad y britysgol

22/06/2015 - 18:55

darllen mwy



Comisiynydd Plant - borri cynllun iaith

19/06/2015 - 18:35

darllen mwy



Cymraeg yn hanfodol? Ddim mor hanfodol â'r Saesneg

15/06/2015 - 16:47

darllen mwy



Tanystrifio i Cefnogwyr

Cwblha'r ffurflen isod i danystrifio i gylchlythyr y Gymdeithas.

Cyfeiriad E-bost: *

Enw:

Cyfenw:

Tanystrifio

Protest yn erbyn diffyg arwyddion Cymraeg

Ionawr 25, 2014 14:49

Mae aelodau Cymdeithas yr Iaith wedi bod yn protestio yn siop Marks and Spencer Trostre, ger Llanelli.

Maen nhw'n cwyno bod y cwmni wedi tynnu arwyddion Cymraeg o'u dwy siop yn Sir Gaerfyrddin – Trostre a Chaerfyrddin – gan eu cyhuddo o lusgo traed gydag addewid i edrych ar eu polisi iaith yn genedlaethol.

Fe fu aelodau'r Gymdeithas yn llenwi trollis â thuniau a jariau o fwyd y bore yma a mynd â nhw at y manau talu ond gan ddweud nad oedden nhw'n bwriadu prynu'r nwyddau oherwydd diffyg arwyddion Cymraeg. Yn ôl y protestwyr, fe ddaeth y siop i stop am tua hanner awr yn sgil y protest.



Siopa drwy'r Gymraeg

Meddai Bethan Williams, Swyddog Maes Cymdeithas yr Iaith yn yr ardal:

'Fe fuon ni'n protestio sawl gwaith yng Nghaerfyrddin a dechrau gweld newid – mae'r siop wedi dweud eu bod nhw'n edrych ar y peth yn genedlaethol ond yn gwrthod rhoi dyddiad.

“Cododd y mater ynglŷn â Marks & Spencer gyntaf pan godwyd pryderon ar ôl i'r busnes ail-leoli o ganol tref Llanelli i barc Trostre. Roedd yna ymgyrch fawr pan sefydlwyd y busnes yng nghanol tref Llanelli flynyddoedd yn ôl i gael arwyddion dwyieithog, ac fe lwyddodd wedi i aelodau o'r Gymdeithas adael troliau llawn o nwyddau wrth y manau talu a cherdded mas gan wrthod prynu nwyddau o M&S oherwydd diffyg gwasanaeth yn y Gymraeg. Ar ôl llythyru a M&S daeth yn amlwg nad oedd y busnes yn ddigon parod i gynnal gwasanaeth Cymraeg, felly ym mis Rhagfyr 2010 penderfynom ni fel Cell Cymdeithas yr Iaith yn yr ardal i gynnal yr un brotest a ddigwyddodd flynyddoedd yn ôl, gan adael troliau llawn nwyddau wrth y manau talu yn y gobaith y byddai hyn yn deffro'r cwmni. Wedi hyn aeth aelodau o Grŵp Hawliau'r Gymdeithas i gwrdd â rheolwr M&S dros ranbarth Cymru ac addawodd ef sefydlu arwyddion dwyieithog pan fyddai siopau'n cael eu hadnewyddu yn y dyfodol agos.”

Tesco

"Gofynnwn i'n cydweithwyr siarad Saesneg oni bai; nad Saesneg yw iaith gyntaf y cwsmer a bod y cydweithiwr yn hyderus i gyfathrebu gyda'r cwsmer yn eu hiaith."

"Rydym hefyd yn caniatáu i'n staff siarad gyda'i gilydd yn eu hiaith eu hunain ond i fod yn ystyriol o'n cwsmeriaid."

"Byddai'n anodd i ni roi blaenoriaeth i'r Gymraeg gan ein bod yn byw mewn cymdeithas amlddiwylliannol lle y siaredir sawl iaith."

"Rydym bob amser yn edrych am ffyrdd i wella ac er nad yw ein cwsmeriaid wedi bod yn gofyn am fwy o wasanaethau dwyieithog, rydym o hyd yn ystyried hyn. Rydym yn parhau i weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg, ac mae gennym berthynas da gyda hi."

Arwyddion

"Mae'n rhaid i'r arwyddion fod yn Gymraeg ac yn Saesneg ym mhob un o'n siopau yng Nghymru.

Gallaf gadarnhau bod yr holl brif arwyddion yn ein siopau yn ddwyieithog, ond nid oes gennym arwyddion Cymraeg/Saesneg ar ein pypiau petrol nac yn ein gorsaf petrol."

*"I can confirm that all major signs in our stores are bilingual
We do not have Welsh/English bilingual signs at the pumps or on display in our petrol station"*



Rhanbarth Ceredigion: *"Mae nifer o brif arwyddion cyfeirio y siop yn Aberystwyth yn uniaith Saesneg. Dydy arwydd y peiriant arian ddim yn Gymraeg ac mae'r holl arwyddion yn tynnu sylw at gynigion arbennig yn uniaith Saesneg"*

@KelvinD: *Mae'r rhan fwy o'r arwyddion yn Tesco Extra, Rhodfa'r Gorllewin, wedi cael eu disodli gyda rhai uniaith Saesneg. Eu polisi iaith newydd?*

@Bethan_Wil: *Tesco: 'we do have bilingual signage throughout all our Welsh stores' heblaw Aber?!*

Bargen arbennig gan Tesco

Hydref 28, 2014 16:43, Diweddarwyd am 19:05

Mae peiriant twll yn y wal yn siop Tesco newydd Aberystwyth yn cynnig llawer mwy na'r disgwyl, yn enwedig i ddyinion.

Mae llun sydd wedi ei gyhoeddi gan Aled Morgan Hughes ar ei dudalen Twitter hefyd yn awgrymu bod siaradwyr Cymraeg yn cael llawer mwy na rhai sy'n methu â siarad yr iaith.

Yn ol cyfranwyr eraill sy'n trydar, mae'r arwydd bellach wedi ei orchuddio a chafodd hynny ei gadarnhau gan Tesco, mewn datganiad Cymraeg.



Peiriannau Hunan-Wasanaeth

"Mae dewis Cymraeg ar ein peiriannau hunan-wasanaeth yn ein siopau yng Nghymru"

"Our self-service tills in Welsh stores have an option to switch to the Welsh language"

Cyhoeddiadau Uchelseinydd

"Os caiff y cyhoeddiadau uchelseinydd eu gwneud gan staff, efallai na fyddant yn medru'r Gymraeg, felly ni fyddai gennym gyfieithiad."

Labeli Bwyd

"Ni chaiff pob cynnyrch ei labelu yn Gymraeg, efallai y bydd gan rai gyflenwyr Cymreig labeli Cymraeg ychwanegol, ond nid pob un."

"Not every product is labelled in Welsh, some Welsh suppliers may have additional Welsh labelling, however not all."

Cynnyrch Lleol

"Rydym yn gwerthu dros 450 o gynnyrch wrth oddeutu 70 o gyflenwyr Cymreig lleol."

"We sell over 450 products from around 70 local Welsh suppliers."

Deunydd Hyrwyddo a Marchnata

"A oes gennym gyfieithiadau Cymraeg ar gyfer taflenni hyrwyddo? Os ydych yn cyfeirio at hyrwyddiadau wythnosol nid oes gennym gyfieithiadau."

"Do we have Welsh translations for promotional leaflets? If you are referring to normal week in week in promotions we do not have Welsh equivalents."

Gohebu â Chwsmeriaid

“Gallwn ymateb i gwsmeriaid yn Gymraeg os gofynnir am hynny, neu os ydy'r cwsmer wedi ysgrifennu atom yn Gymraeg.”

“We do have the ability to respond to customers in Welsh if requested or if the customer has written in the Welsh language.”

Staff

“Byddai'n anodd inni roi blaenoriaeth i'r Gymraeg gan ein bod yn byw mewn cymdeithas amlddiwylliannol lle y siaredir sawl iaith, ac fel rydym wedi nodi, os oes ar gwsmer eisiau cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg neu unrhyw iaith arall byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddarparu staff sy'n medru gwneud hyn.

Ni chaiff unrhyw iaith ei gorfodi ac ni hoffem gael ein gweld yn blaenoriaethu un iaith dros unrhyw iaith arall. Yn y pen draw, mae'n achos o foddhau cymaint o bobl â phosibl. Felly, er nad ydym yn annog ein staff na'n cwsmeriaid i gyfathrebu mewn unrhyw iaith benodol, deallwn pa mor bwysig yw hi i wneud i bobl deimlo mor gartrefol â phosibl, ac mae hyn yn adlewyrchu'r ffordd rydym yn cyfathrebu.

Er mai'r Saesneg yw'r iaith y siaredir fwyaf gan bobl sy'n ymweld â'r siop, rydym yn sicrhau bod rhywun ar gael petai ar gwsmer eisiau trafod unrhyw beth mewn iaith benodol. Ni fyddwn fyth yn gorfodi rhywun i gyfathrebu mewn modd na fedrent neu na hoffent wneud. Ein gwerth creiddiol yn Tesco yw bod croeso i bawb ac ni fyddwn fyth eisiau gelyniaethu yn erbyn staff na chwsmeriaid drwy ddiystyru rhywbeth sy'n bwysig iddynt.

Rydym yn darparu staff sy'n medru'r Gymraeg pan allwn a phan fo angen, ynghyd ag unrhyw ieithoedd eraill y gallai ein staff siarad.

Hoffwn eich sicrhau, fel cwmni mawr iawn, fod gennym rai polisiâu penodol, ac ynglŷn â chyflogaeth, ceisiwn ein gorau i fod mor deg â phosib gydag unrhyw un sy'n ymgeisio i weithio i'r cwmni, boed yn un o'r siopau neu yn un o'n canolfannau cyswllt. Credwn ac ymdrechwn i ddilyn y polisi bod 'Croeso i bawb'. Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar bobl ac rydym i gyd yn wahanol ac yn amrywiol.

Hoffwn eich sicrhau ein bod yn gwneud popeth y gallwn i foddhau ein cwsmeriaid nad ydynt yn medru'r Saesneg. Mae gennym staff yn y ganolfan hon sy'n medru'r Ffrangeg, Sbaeneg, Eidaleg a Chymraeg, ac maent wedi cael eu galw i siarad gyda chwsmeriaid yn yr ieithoedd hyn.

Nid oes gennym bolisi sy'n atal ein cydweithwyr rhag siarad eu hiaith eu

hunain. Rydym yn gyflogwyr cyfle cyfartal ac nid ydym yn gwahaniaethu yn hyn o beth. Gofynnwn i'n cydweithwyr siarad Saesneg oni bai nad Saesneg yw iaith gyntaf y cwsmer a bod y cydweithiwr yn hyderus i gyfathrebu gyda'r cwsmer yn eu hiaith. Rydym hefyd yn caniatáu i'n staff siarad gyda'i gilydd yn eu hiaith eu hunain ond i fod yn ystyriol o'n cwsmeriaid."

"It would be difficult to give priority to Welsh as we live in a multi-cultural society where many languages are spoken and as we have stated if a customer wishes to converse in Welsh or any other language we will do all we can to provide staff able to do this for them.

No one language is enforced or would we wish to seem to prioritise one over any other. Essentially, it comes to a case of accomodating as many people as possible. Therefore, although we may not actively encourage our staff or customers to converse in any one language, we understand the importance of making people feel comfortable as possible and this is in no small way to how we communicate.

Where English may be the more common language used by people visiting the store, we take great care to ensure that someone can be on-hand should a customer wish to discuss anything in a certain language. It would never be the case that we would force someone to communicate in a way that they were unable or unwilling to do so. Our core value at Tesco is that everyone is welcome and we would never wish to alienate either staff or customers by disregarding or comprimising on something that is important to them.

We do provide Welsh speaking staff members where we can when they are required along with other languages that our staff may speak.

I would like to assure you that as a very large company we do have certain policies in place and with regards to employment we try our very best to be as fair as possible with anyone who applies to work within the company, be it in one of our stores or contact centres. We believe and strive on the policy that 'Everyone is welcome'. Our success depends on people and we're all different and diverse.

I would like to assure you we do all we can to accommodate our non-English speaking customers. We have staff in this centre who speak French, Spanish, Italian, and Welsh and they have been called to speak to customers in these languages.

We do not have a policy that states our colleagues cannot speak in their own language. We are an equal opportunity employer and we do not discriminate in this maner.

We ask our colleagues to speak to customers in English unless: English is not the customer's first language and our colleagues are confident to converse with the customer in their language. We also allow our staff to speak to each other in their own language but to be mindful of our customers."

@Tesco: @craig_lewes Mae croeso i'n staff wisgo'r bathodynnau laith Gwaith os ydynt yn teimlo'n ddigon hyderus i wneud hynny. Nid ydym yn darparu'r bathodynnau yma i'n staff, fodd bynnag ni fyddem yn atal unrhyw aelod o'r staff rhag eu gwisgo.

@Tesco: @craig_lewes *Our colleagues are free to wear the laith Gwaith badges if they feel confident to do so. We do not provide these for our staff, however we would not stop any colleagues who wish to wear them*

Rhanbarth Ceredigion: "Yn Tesco Aberystwyth dydy hi ddim yn amlwg fod unrhyw un o staff y siop yn gwisgo bathodyn i ddweud eu bod yn siarad Cymraeg"

@ToshFan44: dydy @Tesco ddim yn blaenoriaethu'n cyflogi siaradwyr Cymraeg

@motocaddy1: @ToshFan44 @Tesco Cael arwyddion dwyieithog yn unig dda i ddim, angen clywed mwy o iaith wrth dalu hefyd

@ToshFan44: @motocaddy1 hollol gywir. Dylai @tesco annog gweithwyr pwy siarad Cymraeg i gwisgo'r bathodyn hefyd!

Gwasanaethau Eraill

"Nid oes gan ein Cerbydau Nwyddau Trwm ysgrifen Cymraeg arnynt gan eu bod yn gwasanaethu y tu allan i Gymru, ac mae gan ein HGV's frandio generig"

"Our HGV's will not have Welsh writing as they serve outside of Wales, and our home shopping vans use a generic branding"

@deianj: Dim cardiau pen-blwydd Cymraeg ar werth yn @Tesco Caerdydd!

@lisamairjones: @Tesco Dim un cerdyn cyfarch Cymraeg ar gael yn siop Tesco Croes Cwrlwys Caerdydd

@BedwyrWilliams: Arlwy cardiau Cymraeg Tesco Caernarfon yn golygu cardiau ar thema Cymraeg nid yn Gymraeg

Morrisons

“Mae cost sylweddol ynghlwm wrth ail-osod yr holl arwyddion tu fewn i’n siopau. Yn nifer o’r ardaloedd mae hefyd angen ystyried faint o le sydd – a gall ychwanegu ail iaith ei wneud yn anodd i gwsmeriaid ddeall yr arwydd”

“Rydym yn dueddol o amrywio’r defnydd o’r Gymraeg yn dibynnu ar beth mae ein cydweithwyr Cymreig yn lleol yn credu sydd angen”

“Mae Morrisons yn cyd-weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg”

“Mae ein cyhoeddiadau fel arfer yn uniaith Saesneg”

“Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg yn ein siopau pan fo’n rhesymol ac yn ymarferol i wneud hynny. Mae Morrisons yn cyd-weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddarparu nifer o wasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid sy’n medru’r Gymraeg trwy ein holl siopau yng Nghymru. Mae fy nghyd-weithiwr wedi trafod y mater gyda Chomisiwn yr Iaith Gymraeg ac yn edrych ar ffyrdd y gallwn hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg ymhellach.”

“We are committed to promoting the use of Welsh in our stores where it is reasonable and practicable to do so. Morrisons work in association with the Welsh Language Board to provide a number of services catering for our Welsh customers throughout all of our stores in Wales. I know that my colleagues recently discussed this issue with the Welsh Language Commission and are looking at ways that we can further promote and facilitate the use of Welsh.”

Arwyddion

“Er nad oes modd cyfieithu popeth, rydym yn ymdrechu i sicrhau bod y nifer o arwyddion dwyieithog yn ein siopau yn cyfateb i anghenion ein cwsmeriaid sy’n siarad Cymraeg. Rydym yn dueddol o amrywio’r defnydd o’r Gymraeg yn dibynnu ar beth mae ein cydweithwyr Cymreig yn lleol yn credu sydd angen Gallaf gadarnhau bod gennym arwyddion dwyieithog o gwmpas yr orsaf betrol ond nid ar y pypmpiau eu hunain.

Mae cost sylweddol ynghlwm wrth ail-osod yr holl arwyddion tu fewn i’n siopau. Yn nifer o’r ardaloedd mae hefyd angen ystyried faint o le sydd – a gall ychwanegu ail iaith ei wneud yn anodd i gwsmeriaid ddeall yr arwydd”

“While not everything can be translated, we do endeavour to have a level of bilingual signage in our stores and car parks that responds to the needs of our Welsh speaking customers. We tend to vary the use of Welsh depending on what

our Welsh colleagues based locally believe is the right amount I can confirm that we do have bilingual signs around the forecourt however not on the actual pumps. There are significant cost implications to refitting all our in-store signage. In a number of areas there are also practical space considerations – where the addition of a second language could make it difficult for customers to read the signage.”

@osianowen1: @Morrisons why have you go English-only signage at your Caernarfon store? A town with 80%+ of Welsh speakers

@AnnHopcyn: Cam yn ôl o ran Cymraeg gweladwy yn @Morrisons Caernarfon

Arolwg Cell Pantycelyn: “Mae arwyddion uniaith Saesneg wedi cymryd lle rhai ddwyieithog yn rhai o’u siopau yn ddiweddar. Mae arwyddion mawr ar y waliau o amgylch y siop – yn ardal y cigydd, becws a’r fferyllfa yn uniaith Saesneg. Does dim arwyddion Cymraeg yn yr orsaf betrol.”



Peiriannau Hunan Wasanaeth

“Mae ein peiriannau hunan wasanaeth yn ddwyieithog.”

Cell Pantycelyn: “Mae dewis Cymraeg ar y peiriant hunan wasanaeth, ond mae’r cyfarwyddiadau ar y peiriant ei hun yn uniaith Saesneg”

Cyhoeddiadau Uchelseinydd

“Mae ein cyhoeddiadau fel arfer yn uniaith Saesneg, ond weithiau yn ddwyieithog ar achlysuron arbennig, er enghraifft ar ddiwrnod y cofio.”

Labeli Bwyd

Cell Pantycelyn: “Mae cynnyrch brand Morrisons wedi ei labeli yn uniaith Saesneg.”

Cynnyrch Lleol

“Rydym wedi cynllunio ein cynnyrch yn ein siopau yng Nghymru yn benodol ar gyfer siopwyr Cymreig. Mae’ bellach yn cynnwys dros 225 o gynnyrch Cymreig, gan dros 185 o gyflenwyr Cymreig”

“We have designed our Welsh stores’ product range specifically for Welsh shoppers.”

It now includes over 225 dedicated Welsh products, sourced via over 185 established relationships with Welsh suppliers."

Cell Pantycelyn: "Maent yn gwerthu tatws a chaws Cymreig. Nid oes cig o Gymru ar y silffoedd, dim ond yn ardal y cigydd. Nid yw'n amlwg iawn eu bod yn gynnyrch Cymreig gan fod baner y DU ar rai"

Deunydd Hyrwyddo a Marchnata

"Mae'r rhan fwyaf o'r taflenni yn dod o'r brif swyddfa felly maent yn uniaith Saesneg."

Staff

"Rydym wedi cyflwyno cynllun y bathodynnau 'laith Gwaith' er mwyn pwysleisio y siaredir y Gymraeg a'r Saesneg. Caiff y bathodynnau bach oren siâp swigen siarad eu gwisgo gan staff Morrisons er mwyn dynodi bod gwasanaeth dwyieithog ar gael."

"We have introduced the 'laith Gwaith'/'Working Welsh' badge scheme to highlight that both Welsh and English are spoken. The small orange speech-bubble shaped badges are to be worn by Welsh speaking Morrisons employees to indicate dual-language provision."

Cell Pantycelyn: "Nid ydynt yn cadw cofnod o faint o'r staff sy'n medru'r Gymraeg. Nid yw'r staff yn cael eu hannog i wisgo bathodynnau i ddangos eu bod yn medru siarad Cymraeg, mae'n hollol wirfoddol, ac nid ydym wedi gweld neb yn gwisgo un"

@**Plaid_Glyndwr:** Rhyl yesterday; family of shoppers in Morrisons asked not to speak Welsh by a member of staff

Gwasanaethau Eraill

"Mae Morrisons ar hyn o bryd yn gweithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gynlluniau i gael gwasanaeth dwyieithog ar rannau o'r wefan yn y dyfodol."

"Morrisons is also currently working with the Welsh Language Board on future plans to include dual language on most visited sections of its website."

@**Llew_Llyn**: mae'r ail frandio yn M Cfon yn erchyll. Mae angen i @Morrisons gael brand Cymraeg yn yr ardaloedd Cymraeg

@**Llew_Llyn**: Mae statws y Gymraeg yn @Morrisons Caernarfon yn erchyll. Mae angen iddyn nhw ymgorffori'r Gymraeg i'w brand mewn ardaloedd Cymraeg

@**bancffosfelen**: @Morrisons Dim cardiau Cymraeg yn siop Caerfyrddin. Dim llawer o Gymraeg o gwbl a dweud y gwir!

@**CalebRhys**: Gwarthus nad ydi Morrisons Bangor yn gwerthu dim math o gerdyn Cymraeg

@**sionzzzz**: Dal yn meddwl bod y ffaith bod prescriptiwn Cymraeg yn Morrisons 'di cael ei wrthod yn afiach

Archfarchnad yn gwrthod presgripsiwn Cymraeg ym Mangor

Ionawr 8, 2014 14:32, Diweddarwyd am 16:38

Mae teulu o ogledd Cymru wedi methu cael presgripsiwn i'w mab yn archfarchnad Morrisons ym Mangor oherwydd ei fod wedi cael ei ysgrifennu'n Gymraeg.

Roedd Aled Mann wedi dweud ar y wefan gymdeithasol Facebook bod dim un fferyllfa arall ym Mangor neu Gaernarfon gyda'r cyffur yr oedd ei fab 15 mis oed ei angen ddydd Llun.

Oherwydd hynny, bu'n rhaid iddo fynd nôl i'r feddygfa i ofyn am bresgripsiwn arall yn Saesneg.

Meddai Aled Mann ar Facebook: "Gwarthus o beth yn ein gwlad ein hunain!!"

Ddoe, cafodd y bachgen, Harley, ei gludo i Ysbyty Gwynedd gyda thrafferthion anadlu.

Galw am 'esboniad llawn' gan Morrisons

Dyweddodd Osian Jones, swyddog maes Cymdeithas yr Iaith yn y gogledd bod yr achos yn "warthus" ac yn dangos bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu "trin yn eilradd" yng Nghymru.

Meddai: "Er holl siarad gwag y Llywodraeth, mae hyn yn dangos gwir realiti'r sefyllfa i ddefnyddwyr y Gymraeg o ddydd i ddydd.

"Fel tad i fachgen ifanc fy hun, dwi'n gynddeiriog o glywed bod teulu wedi cael gwrthod presgripsiwn gan siop Morrisons ym Mangor, am fod y presgripsiwn hwnnw wedi ei ysgrifennu'n Gymraeg."



Co-Op

“Mewn nifer fach iawn o siopau does dim ond lle am un iaith, felly prif iaith yr ardal sy’n cael blaenoriaeth”

“Fel busnes cydweithredol, sef cwmni lle mae ei aelodau yn berchen y busnes, ac un sy’n gwasanaethu’n cymunedau, mae’r Co-op yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg ac yn gweithredu i gydnabod hynny yn y ffordd rydyn ni’n masnachu

Rwy’n ymwybodol iawn bod angen gwneud mwy yn y mater yma ac rydw i’n gobeithio y byddwch yn parhau i weld mwy o ddatblygiadau yn ein defnydd o’r iaith Gymraeg yn y Co-op yn y dyfodol. Rydym yn siarad yn aml gyda Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg, a gyda Bwrdd yr Iaith cyn hynny, ac yn hapus i dderbyn cyngor.”

Arwyddion

“Fel mater o bolisi mae bob arwydd yn ddwyieithog wrth i’r siop gael ei hadnewyddu. Mae’r Co-operative yn comisiynu cyfieithwyr o’r safon gorau ac mae bob arwydd yn cael ei gadarnhau cyn ymddangos yn y siopau. Mae’r arwyddion yn ein meysydd parcio yn gwbl ddwyieithog. Fel busnes sy’n gweithredu siopau bach ar y cyfryw, yr her fwyaf yw lle ar gyfer arwyddion a’u bod yn weledol ac yn ddarllenadwy i bawb, felly, mewn nifer fach iawn o siopau does dim ond lle am un iaith, felly prif iaith yr ardal sy’n cael blaenoriaeth.”

Peiriannau Hunan Wasanaeth

“Mae ein peiriannau arian, gyda’n manau talu hunan weithredol yn gwbl ddwyieithog yn ôl y dewis.”

Cyhoeddiadau Uchelseinydd

“Nid yw datganiadau dros yr uchelseinydd yn y Gymraeg yn awtomatig.”

Labeli Bwyd

“Mae’r labeli ar y bwydydd yn bennaf yn uniaith Saesneg, oni bai am ambell un sydd gyda labeli dwyieithog.”

Deunydd Hyrwyddo a Marchnata

“Wrth ateb eich cwestiwn am drefn ieithyddol yn ein siopau, mae’r busnes yn gwneud y penderfyniad wrth ystyried cryfder y Gymraeg yn yr ardal er mwyn sicrhau bod ein presenoldeb masnachol yn adlewyrchu’r gymuned mae’n gwasanaethu. Mae adnoddau ar gyfer yr ymgyrchoedd yma: posterï; negeseuon radio; sgrin y til; a’r sgrin gymunedol yn gwbl ddwyieithog”

Gohebu â Chwsmeriaid

“Dydw i methu cadarnhau y bydd y Co-op yn cyfathrebu gyda’n cwsmeriaid yn ddwyieithog yn awtomatig ond os ydyn ni’n derbyn llythyr neu e-bost yn y Gymraeg yna rydyn ni’n gwneud bob ymdrech i ymateb drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae’r Co-op eisiau ein cyd-weithwyr ymateb i’n haelodau a’n cwsmeriaid a’n cyd-weithwyr yn y ffordd briodol ar bob achlysur, felly os mai Cymraeg yw’r iaith ddewisol yn y sefyllfa hynny, rydyn ni’n annog ac yn hybu’r cyd-weithwyr i ddefnyddio’r Gymraeg. Mae gan y Gymraeg a’r Saesneg statws cyfartal yn yr ystyr hynny”

Staff

“Mae’r Co-op yn hybu ein cyd-weithwyr i ddangos os ydyn nhw’n medru’r iaith, ac yn ddiweddar rydyn ni wedi cyflwyno bathodynau enwau sydd hefyd yn ymddangos os ydy’r person yn siarad Cymraeg. Mae’r rhain ar gael i bob cyd-weithiwr sydd eisiau un.

Does gyda ni ddim polisi penodol i recriwtio siaradwyr Cymraeg uwch ben siaradwyr uniaith Saesneg, ond wrth recriwtio’n lleol ar gyfer ein siopau, ein bwriad bob tro yw cyflogi timau sy’n adlewyrchu eu cymunedau. Rydyn ni hefyd yn cyd-weithio gyda’r Comisiynydd i adolygu sut allen ni gynyddu, wrth recriwtio neu drwy hyfforddiant, y nifer o siaradwyr Cymraeg ymysg ein timau lleol, lle mae gwendid wedi dod yn amlwg.”

Gwasanaethau Eraill

“Mae’n bagiau 5c yn ddwyieithog ond gweddill ein bagiau yn uniaith Saesneg oherwydd cynnyrch ar gyfer y DU i gyd ydyn nhw a dydy e ddim yn bosibl yn fasnachol, oherwydd y niferoedd, i gyflawni’r bagiau yma yn ddwyieithog. Mae arian o’r bagiau newydd a’r bagiau 5c yn mynd i’n cronfeydd sy’n cefnogi natur Cymru a’r cymunedau o’i chwmpas.”

Asda

“Mae Asda yn gwbl ufudd i ddeddfwriaethau presennol wrth ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid Cymraeg a Saesneg eu hiaith”

“Byddai gwneud yr hyn rydych chi wedi ei awgrymu yn fwy na’r hyn sydd ei angen i ni ei wneud yn gyfreithiol, ac felly yn ychwanegu cost sylweddol”

“Fel busnes cyfrifol, mae Asda yn gwbl ufudd i ddeddfwriaethau presennol wrth ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid Cymraeg a Saesneg eu hiaith. Byddai gwneud yr hyn rydych chi wedi ei awgrymu yn fwy na’r hyn sydd ei angen i ni ei wneud yn gyfreithiol, ac felly yn ychwanegu cost sylweddol. Byddai hyn yn golygu y byddai’n rhaid i ni godi ein prisiau, sy’n groes i’n hymrwymiad i gadw prisiau’n isel.”

“As a responsible business, Asda is fully compliant with current legislation catering for both Welsh and English speaking customers. To do what you have suggested over and above legislative requirements would add considerable cost and invariably this would have to be recouped by raising prices for customers which goes against our commitment to low prices.”

Arwyddion

“Nid oes gennym arwyddion dwyieithog yn ein Gorsafoedd Petrol, ond fel ‘rwyf wedi cadarnhau rydym yn gwbl ufudd i ddeddfwriaethau presennol wrth ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid Cymraeg a Saesneg eu hiaith.”

“In all of our Petrol Filling Stations we do not have bilingual signs, but as I’ve confirmed we are fully compliant with current legislation catering for both Welsh and English speaking customers.”

Peiriannau Hunan Wasanaeth

@CBrydyddmawr: mynd i siopa yn Asda heddiw, dim til hunangymorth Cymraeg

@Clocyntician: Ar ôl gaddo tiliau hunan-wasanaeth dwyieithog erbyn Mawrth 2015 mae @asda wedi torri eu haddewid...Amser gweithredu

@AsdaServiceTeam: @clocyntician I’m afraid this isn’t something we are looking to do at the moment

@Clocyntician: @AsdaServiceTeam Why was it stated by your social

media team that the intentions were being put in motion? Lies?

@AsdaServiceTeam: @Clocyntician I do apologise for the confusion on our end, this is something that is being put in place but was unfortunately delayed. We have been trailing this in one of our stores, and from the information I have at hand it should be rolled out in all stores by the end of next week

@AsdaServiceTeam: @Darrentatw We're hoping to have this rolled out in stores by the end of June!


@Darrentatw: @AsdaServiceTeam Still no Welsh option at the tills!

@AsdaServiceTeam: @Darrentatw Sorry Darren, there has been a slight delay but this should be happening ASAP

Labeli Bwyd

@EvanIfor: Da iawn @Asda ond nawr mae rhaid i chi gynnig Cymraeg dros lawr y siop os gwelwch yn dda

@Cymro57: Pecyn positif gan @asda



Staff

"Mae pobl wrth galon ein busnes, ac mae parchu ein gilydd a'n gwahaniaethau yn hollbwysig er mwyn cynnal ein diwylliant ffantastig. Credwn fod cael timoedd amrywiol yn ein cynorthwyo i ddeall ein cwsmeriaid yn well, sy'n golygu y gallwn gynnig gwasanaeth gwych i'n cwsmeriaid. Ar sail hyn, pan all ein cydweithwyr sy'n medru'r Gymraeg gynorthwyo ein cwsmeriaid sy'n medru'r Gymraeg byddem, wrth gwrs, yn eu hannog i wneud hynny."

"People are very much at the heart of our business, respecting each other and our differences is crucial to maintaining our fantastic culture. We believe that

having diverse teams helps us understand our customers better, meaning we can offer great customer service. On this basis, where our Welsh speaking colleagues can assist our Welsh speaking customers we would, of course, encourage them to do so."

Gwasanaethau Eraill

"Diolch am eich e-bost. Cyfeiriwch at ein e-byst blaenorol lle rydym yn esbonio bod Asda yn gwbl ufudd i ddeddfwriaethau presennol wrth ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid Cymraeg a Saesneg eu hiaith. Gwnaethom esbonio bod yr hyn yr ydych yn ei awgrymu yn mynd yn fwy na'r hyn sydd ei angen i ni ei wneud yn gyfreithiol, ac felly yn ychwanegu cost sylweddol. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i ni godi ein prisiau sy'n groes i'n hymrwymiad i gadw prisiau'n isel. Gan ein bod wedi esbonio ein safbwynt ni fyddwn yn ateb i ymholiadau tebyg pellach."

"Thank you for your email. Please refer to our previous emails to you where we explained that Asda is fully compliant with current legislation catering for both Welsh and English speaking customers. We explained that to do what you have suggested over and above legislative requirements would add considerable cost and invariably this would have to be recouped by raising prices for customers which goes against our commitment to low prices. As we have explained our position we won't be responding to further similar queries."

Lidl

Arwyddion

“Bydd cwsmeriaid sydd wedi ymweld â’n siopau yng Nghymru yn gwybod ein bod yn [embrace] yr iaith, gan fod gennym arwyddion Cymraeg yn ein siopau.”
“Customers who have visited our Welsh stores will know that we embrace the language, with our stores also displaying Welsh signage.”

Cyhoeddiadau Uchelseinydd

@EsylltMair: Calonogol i glywed cyhoeddiadau Cymraeg @lidl #Treorci

Staff

“Nid yw Lidl UK erioed - ac ni fyddwn fyth - yn ‘gwahardd’ y defnydd o’r Gymraeg yn ein siopau. Mae hyn yn wir am gyfathrebu rhwng staff a chwsmeriaid, ac am gyfathrebu rhwng aelodau o’r staff. Yn ychwanegol at hyn, dros yr wythnosau nesaf bydd Lidl yn cynnwys symbol swyddogol yr iaith Gymraeg ym mynedfeydd ein siopau yng Nghymru, ac yn darparu bathodynnau iaith Gwaith i’n staff sy’n medru’r Gymraeg I wisgo er mwyn i gwsmeriaid sy’n medru’r Gymraeg eu hadnabod. Gobeithiwn fod ein gweithredoedd yn dangos yn effeithiol y parch diamod sydd gan Lidl UK i’r statws swyddogol sydd gan y Gymraeg yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.”

“Lidl UK has never – and will never – ‘ban’ the use of the Welsh language in our stores. This applies to both communications between our staff and customers, and to communications between members of staff.

Additionally, in the coming weeks Lidl will be including the official Welsh language symbol

on our store entrances across Wales, and providing all Welsh-speaking store staff with Working Welsh (Iaith Gwaith) badges and/or lanyards for them to wear, identifying them to Welsh speaking customers.

We hope the above actions effectively demonstrate the absolute respect Lidl UK has for the official status of the Welsh Language and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.”

Lidl: 'Dim hawl' i siarad Cymraeg

Karen MacIntyre Huws
Cymru Fyw

© 7 Tachwedd 2014

← Rhannu



Sainsbury's

"Rydym yn ceisio cael cymaint o arwyddion dwyieithog â phosibl, fodd bynnag mae angen i ni sicrhau eu bod yn glir i'n holl gwsmeriaid a'n cydweithwyr. Oherwydd hyn, mae pob arwydd ynglŷn ag iechyd a diogelwch a thaliadau yn uniaith Saesneg"

"Mae ein peiriannau hunan wasanaeth yn uniaith Saesneg, ac nid oes gennym fwriad ar hyn o bryd i gynnig dewis Cymraeg"

"Mae'n holl gyhoeddiadau ar yr uchelseinydd yn cael eu gwneud yn y Saesneg ac nid oes gennym unrhyw gynlluniau i newid hyn yn y dyfodol agos"

Arwyddion

"Rydym yn ceisio cael cymaint o arwyddion dwyieithog â phosibl, fodd bynnag mae angen i ni sicrhau eu bod yn glir i'n holl gwsmeriaid a'n cydweithwyr. Oherwydd hyn, mae pob arwydd ynglŷn ag iechyd a diogelwch a thaliadau yn uniaith Saesneg. Er bod gennym sawl arwydd dwyieithog yn ein gorsafoedd petrol, mae hyn yn amrywio o siop i siop.

Mae'r holl arwyddion parhaol yn fewnol ag yn allanol, megis oriau agor, negeseuon cyfreithiol yn ymwneud â chyfyngiadau tybaco ac arwyddion cyfeiriadol yn ein siopau yn ddwyieithog. Rydym yn gweithio'n agos gyda Chomisiwn yr Iaith Gymraeg i sicrhau bod y sillafu a'r gramadeg ar ein harwyddion yn gywir."

"We try to have signs bilingual as much as possible, however we need to ensure they remain clear for all our customers and colleagues. For this reason all signs regarding health and safety and payment are in English only. Although we do have several bilingual signs in our petrol filling stations this can vary from store to store. All permanent fixed signage both internal and external, such as opening hours, legal messages relating to tobacco restrictions and directional signs in our stores is bilingual. We work closely with the Welsh Language Commission to make sure the spelling and grammar of our signs are correct."

Peiriannau Hunan Wasanaeth

"Mae ein peiriannau hunan wasanaeth yn uniaith Saesneg, ac nid oes gennym fwriad ar hyn o bryd i gynnig dewis Cymraeg."

"Our self-service checkouts are configured to offer only English, and we do not currently have any plans to offer a Welsh language option on these services."

“Nid oes gwasanaeth Gymraeg ar y tiliâu hunan wasanaeth yn Sainsbury’s Thornhill Caerdydd”

@**Mamfach62**: Wedi diflasu ar ddiffyg tiliâu hunanwasanaeth Cymraeg yn @sainsburys Sgeti a Uplands

@**GwilymapAlun**: Dylai Sainsbury’s gael dewis Cymraeg ar eu hunanwasanaeth

@**AndrewTeilo**: @sainsburys Cymraeg ar eich peiriannau talu, os gwelwch yn dda

@**AledPowell**: Oes gan eich @sainsburys chi opsiwn Cymraeg ar beiriannau hunan-dalu neu ydy pob cangen ar ei hôl hi gymaint ag un Wrecsam?

@**GlynWise**: Peidiwch defnyddio @Sainsburys nes eu bod yn darparu opsiwn Cymraeg yn ei peiriannau hunan wasanaethau!

Tiliâu uniaith Saesneg yn Sainsbury’s

2 Medi 2013 Diweddarwyd 22:17 BST

Mae un o brif archfarchnadoedd Prydain wedi dweud nad ydyn nhw'n bwriadu darparu tiliâu hunanwasanaeth yn ddwyieithog yn eu siopau. Daw'r ymateb ar ôl i ferch chwe blwydd oed o Landysul greu deiseb sy'n cwyno nad yd'r Gymraeg i'w chlywed wrth y tiliâu yn Sainsbury's. Mwy gan Elen Wyn.

Cyhoeddiadau Uchelseinydd

“Fel cwmni, mae'n holl gyhoeddiadau ar yr uchelseinydd yn cael eu gwneud yn y Saesneg ac nid oes gennym unrhyw gynlluniau i newid hyn yn y dyfodol agos”

“As a company all our tannoy announcements are made in English and we have no plans to change this in the near future.”

Labeli Bwyd

“Mae'r labeli ar ein cynnyrch yn uniaith Saesneg. Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw becynnu amlieithog ar gynnyrch ein brand ein hun, er ein bod yn tynnu sylw at y cenedligrwydd a'r rhanbarth lle y bo'n briodol. Rydym yn defnyddio eicon baner Cymru ar gynnyrch Cymreig megis cig oen, llaeth, caws a thatws, fodd bynnag, nid oes gennym unrhyw becynnu yn y Gymraeg yn unig. Mae gennym le cyfyngedig, ar er mwyn cydymffurfio â'r maint ffont lleiaf cyfreithiol y mae'n rhaid ei ddefnyddio, ni fyddem yn gallu cael y Gymraeg a'r Saesneg ar ein pecynnau.”

“The labels of our products are written in English only. We currently do not have any multilingual packaging on our own branded products, although we do highlight the nationality and region where appropriate. We use the Welsh flag icon on Welsh products such as lamb, milk, cheese and potatoes, however, we do not have any packaging solely in Welsh. We have limited space available, and in order to comply with the legal minimum font size that must be used, we would not be able to have both English and Welsh on our packs”

Cynnyrch Lleol

“Mae gennym amrywiaeth eang o gynnyrch lleol yn benodol o Gymru gan gynnwys te, dŵr, hufen iâ, cwrw a llawer mwy sydd i’w gweld yn yr adrannau perthnasol yn ein siopau.”

“We carry a wide variety of local products specific to Wales across all food ranges including tea, water, ice cream, beer and many others which can be found in the relevant sections in our stores”

Gohebu â Chwsmeriaid

“Mae ein gohebiaeth yn Saesneg er mwyn cadw cysondeb ar draws yr holl feysydd yr ydym yn masnachu ynddynt”

“Our correspondence is in English to maintain consistency across all areas that we trade in.”

Staff

“Mae Sainsbury’s yn sicr yn annog ein cwsmeriaid a’n cyd-weithwyr sy’n medru’r Gymraeg i gyfathrebu yn Gymraeg. Er bod croeso i’n cyd-weithwyr sy’n medru’r Gymraeg i gyfarch cwsmeriaid yn ddwyieithog, a siarad Cymraeg gyda chwsmeriaid sydd eisiau gwneud hynny, nid ydym yn gosod unrhyw ofynion iaith Gymraeg ar ein gweithwyr.

Nid oes gennym bolisi ynglŷn â’n defnydd o’r Gymraeg ac nid ydym yn gosod unrhyw ofynion ieithyddol ar ein gweithwyr. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi pa mor bwysig yw’r Gymraeg i’n cydweithwyr a’n cwsmeriaid, ac rydym yn sicr yn annog ein cydweithwyr sy’n medru’r Gymraeg i siarad y Gymraeg, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Er fy mod yn sylweddoli eich bod yn teimlo’n gryf am hyn, nid oes gennym gynlluniau i gyflwyno newidiadau yn y modd yr ydych yn awgrymu, fel bathodynau i adnabod siaradwyr Cymraeg.

Fel rydym wedi nodi eisoes, nid oes gennym bolisi ynghylch y defnydd o’r Gymraeg ar hyn o bryd, ac nid ydym yn gosod unrhyw ofynion ieithyddol ar ein staff er mwyn iddynt gael eu hystyried yn rhan o’r tîm. Fodd bynnag, rydym yn sicr yn annog ein cydweithwyr sy’n siarad Cymraeg i sgwrsio yn Gymraeg, pe baent yn dewis gwneud hynny.”

“Sainsbury’s certainly encourages our Welsh speaking customers and colleagues to converse using the language. While Welsh speaking colleagues are free to greet customers bilingually, and speak in Welsh to customers that wish to do so, we do not place any basic Welsh language requirements on our employees.”

We do not currently have a policy on the use of the Welsh language and we do not place any language requirements on our colleagues. However, we appreciate the importance of the Welsh language to our colleagues and customers and certainly encourage our Welsh speaking colleagues to converse in Welsh should they choose to do so.

Although I realise you feel strongly about this, we have no plans to introduce changes in the ways you suggest, such as identifying Welsh speakers on colleague name badges.

As previously advised, we do not currently have a policy on the use of the Welsh language, and we do not place any language requirements on our colleagues in order for them to be considered part of our team. However, we certainly encourage our Welsh speaking colleagues to converse in Welsh should they choose to do so."

Gwasanaethau Eraill

"Nid oes gennym lorïau na faniau penodol i ddsbarthu cynnyrch i'r siopau yng Nghymru, felly nid yw'r arwyddion yn ddwyieithog ar unrhyw un o'n cerbydau."

"We do not have a dedicated fleet of lorries and vans that deliver to our Welsh stores, and therefore, our signage is not bilingual on any of our vehicles."

@emyr1990: @Cymdeithas Ma @sainsburys yn wael. Dim opsiwn Gymraeg ar y til awtomatig, dim Cymraeg ar gynnyrch Cymreig a #sgymraeg ar arwyddion #siopa

Waitrose

“Rydym yn sicr ein bod yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth”

“Yng nghanghennau lle mae gennym wasanaeth hunan dalu wedi ei osod, does dim opsiwn Cymraeg ar gael”

“Mae gan bob partner heblaw am y rhai sydd yn delio gyda bwyd agored, e.e cownteri cig a'r caffi sydd yn siarad Cymraeg hawl i wisgo bathodyn Cymraeg”

“Rydym yn croesawu, yn cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth o fewn ein busnes gyda pholisi chynhwysiant i greu cymuned gynhwysol a bywiog o bartneriaid sy'n cynnwys amrywiaeth gref o sgiliau, doniau, profiadau a chefnidiroedd gwahanol. Tydy hyn ddim oherwydd am ein bod yn cefnogi arferion cyflogaeth ond hefyd am ei fod yn un o'n hegwyddorion sylfaenol ein cyfansoddiad ac yn adlewyrchu ein busnes. Rydym yn trafod gyda Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg ar hyn o bryd, ac fe wnawn gynnwys eich pwyntiau ychwanegol, a gweithredu unrhyw newidiadau sydd eu hangen.”

Arwyddion

“Rydym yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a hefyd hefo arwyddion dwyieithog ym mhob cangen Gymreig. Mae wyth siop gennym yng Nghymru, ac rwy'n falch dweud ein bod eisoes yn gweithredu nifer o'r pwyntiau, gan gynnwys arddangos arwyddion dwyieithog o fewn ein siopau, ac yn meysydd parcio. Mae ein harwyddion yn ddwyieithog, a hefyd yn rhoi'r Gymraeg yn gyntaf.”

Peiriannau Hunan Wasanaeth

“Yng nghanghennau lle mae gennym wasanaeth hunan dalu wedi ei osod, does dim opsiwn Cymraeg ar gael. Fodd, bynnag, os, ar unrhyw adeg mae'r cwsmer angen help, gall alw am help drwy'r sgrin gyffwrdd, neu gall ofyn am rywun sy'n siarad Cymraeg.”

@CBrydyddmawr: mynd i siopa yn Waitrose heddiw - dim til hunangymorth Cymraeg. Beth am ddeddfu?

Labeli Bwyd

“Mae eitemau sydd yn lleol i'r gangen wedi ei labelu yn Gymraeg.”

Gohebu â Chwsmeriaid

“Rydym yn ymateb yn Gymraeg os bydd y llythyr wedi’i ysgrifennu yn Gymraeg.”

Staff

“Mae gan bob partner heblaw am y rhai sydd yn delio gyda bwyd agored, e.e. cownteri cig a’r caffi sydd yn siarad Cymraeg hawl i wisgo bathodyn Cymraeg. Oherwydd rhesymau hylendid bwyd does neb o fewn y busnes sydd yn delio gyda’r cownteri, bwyd agored, neu fan paratoi bwyd yn cael gwisgo bathodynnau ychwanegol. Mae gan bob person arall hawl i wisgo bathodyn Cymraeg.

Yng Nghymru, mae gennym bartneriaid sydd yn siarad Cymraeg, ac rydym yn dilyn pob rheol sydd angen gan y Cynulliad yng Nghaerdydd. Ond fel y buaswch yn disgwyl, mewn llawer o sefyllfaoedd rydym yn mynd yn bellach. Fel enghraifft rydym yn cynnig cymorth i bartneriaid sydd yn dymuno dysgu Cymraeg drwy gynllun o’r enw ‘Leisure Learning.’”

CK's

“Mae arwyddion dwyieithog ym mhob siop, gyda rhai ohonynt ag arwyddion Cymraeg yn unig yn y blaen”

Arwyddion

“Oes mae gennym arwyddion dwyieithog, mae'n bwysig iawn i ni. Mae ein harwyddion yn ddwyieithog bob tro rydym yn diweddarau ein siopau – dyna yw ein ffordd ymlaen. Mae arwyddion dwyieithog ym mhob siop, gyda rhai ohonynt ag arwyddion Cymraeg yn unig yn y blaen.”

Peiriannau Hunan Wasanaeth

“Nid oes gennym beiriannau hunan wasanaeth o gwbl”

Cyhoeddiadau Uchelseinydd

“Nid ydym yn gwneud cyhoeddiadau dros uchelseinydd”

Labeli Bwyd

“Nid oes gennym gynnyrch brand CK felly nid yw hynny'n berthnasol.”

Cynnyrch Lleol

“Rydym ni'n gwerthu cynnyrch lleol, mae hynny'n bwysig iawn. Mae gennym datws o Sir Benfro, a mêl a chacennau lleol. Rydym yn hapus iawn i siarad gydag unrhyw un sy'n dod atom gyda chynnyrch lleol, a gwerthu eu cynnyrch.”

Deunydd Hyrwyddo a Marchnata

“Nid ydym yn dueddol o gael deunydd hyrwyddo a marchnata, ond byddai'r rheiny yn dod o'r brif swyddfa, felly ni fyddent yn ddwyieithog”

Gohebu â Chwsmeriaid

“Mae'n syndod cynifer o bobl sy'n ein ffonio ac eisiau siarad Cymraeg, ac mae wastad rhywun ar gael i'w hateb yn Gymraeg, ond nid ydym yn ateb llythyron yn ddwyieithog”

Staff

“Mae gan dimoedd CK ryddid i gyfathrebu’n Gymraeg yn y gweithle, gan gymryd eu bod yn cyfathrebu’n Saesneg gyda’n cwsmeriaid di-Gymraeg, wrth gwrs. Mae nifer o’n staff yn medru’r Gymraeg, ond nid oes gennym bolisi fel y cyfryw. Mae’r Gymraeg wastad o fantais wrth ymgeisio am swydd.”

Gwasanaethau Eraill

“Nid oes faniau na loriau ein hunain gyda ni. Mae cwmni lleol yn gwneud y gwaith dosbarthu ar ein rhan, ac nid oes ysgrifen ar ochr y faniau, heblaw am enw’r dyn sy’n gyfrifol am y gwaith.”

Aldi

“Nid yw siarad Cymraeg yn rhagofyniad i weithio yn ein siopau, ac o’r herwydd ni allwn ddangos gwahaniaethu yn erbyn pobl ddi-Gymraeg”

Arwyddion

“Mae gennym ystod eang o arwyddion dwyieithog yn ein siopau yng Nghymru. Mae cynlluniau ar gyfer cyfarfodydd pellach i’w cynnal yn y dyfodol agos i drafod sut gellir gwneud gwelliannau eraill, ac mae hyn yn cynnwys arwyddion yn ein siopau yng Nghymru.”

Peiriannau Hunan Wasanaeth

“Nid oes gennym beiriannau hunan wasanaeth.”

Cyhoeddiadau Uchelseinydd

“Nid oes gennym gyhoeddiadau uchelseinydd felly nid oes problem gyda chyhoeddiadau dwyieithog.”

Staff

“Mae’n bleser gennyf eich sicrhau na fyddai ALDI neu ein cynrychiolwyr yn atal pobl rhag siarad Cymraeg yn ein siopau o dan unrhyw amgylchiadau, ac rydym yn sicr nad oes gennym bolisi sy’n groes i’r rhyddid a sefydlwyd gan y ddeddfwriaeth yn 2011.

Rydym wrthi’n cynnal adolygiad o’r siaradwyr Cymraeg sy’n gweithio yn ein siopau. Nid yw siarad Cymraeg yn rhagofyniad i weithio yn ein siopau, ac ni allwn wahaniaethu yn erbyn pobl ddi-Gymraeg. Fodd bynnag, yn amlwg byddai’n gaffaeliad i gael siaradwyr Cymraeg ym mhob un o’n siopau.

Rydym hefyd yn barod yn ystyried sut y gallwn wneud gweithwyr o’r fath yn fwy gweladwy i’n cwsmeriaid, trwy gyfrwng bathodyn.”

Gwasanaethau Eraill

“Mae ALDI yn ymdrechu i fod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo’r iaith Gymraeg, yn ogystal â gweithio ar ddatblygu arferion gwaith yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.

Mae ein Rheolwr Ardal ar gyfer Gorllewin Cymru ar hyn o bryd yn cymryd rhan weithredol wrth weithio gyda chynrychiolwyr o Swyddfa Comisiynydd

y Gymraeg yng Nghaerdydd i fwrw ymlaen â materion iaith Gymraeg ar gyfer siopau yng Nghymru.

Mae cynlluniau hefyd i gael trafodaethau gyda swyddfa'r Comisiynydd ynglŷn â llunio dogfen Polisi iaith Gymraeg ALDI, a fydd yn cwmpasu ystod o arferion a pholisïau. Bwriad hyn yw bod yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei monitro a'i hadolygu yn rheolaidd.

Yr wyf yn gobeithio, felly, y gallwch weld bod llawer iawn o waith ar y gweill, a bod ALDI wedi ymrwymo'n llawn i weithio'n galed ar draws Cymru i sicrhau lle bynnag y bo'n bosibl nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rydym yn edrych ymlaen at agoriad ein Canolfan Ddosbarthu newydd yng Nghaerdydd yn y blynnyddoedd nesaf, ac yn gobeithio y bydd hyn yn ddechrau perthynas cydweithredol gyda Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg."

Iceland

“Nid oes gennym arwyddion dwyieithog yn ein siopau”

“Nid oes gennym ddeunydd hyrwyddo a marchnata Cymraeg”

Arwyddion

“Nid oes gennym arwyddion dwyieithog yn ein siopau. Nid oes gennym gynlluniau i gael arwyddion Cymraeg ar hyn o bryd, ond byddwn yn pasio eich adborth at ein [Point of Sale team]”

“Dwi heb weld unrhyw arwyddion Cymraeg yng ngogledd Cymru”

Peiriannau Hunan Wasanaeth

“Mae peiriannau hunan wasanaeth yn cael eu treialu ar hyn o bryd, ond dwi ddim yn gwybod a fyddant yn ddwyieithog”

Cyhoeddiadau Uchelseinydd

“Nid ydym yn gwneud cyhoeddiadau dros uchelseinydd”

Deunydd Hyrwyddo a Marchnata

“Nid oes gennym ddeunydd hyrwyddo a marchnata Cymraeg”

Staff

“Nid ydym yn hybu staff i siarad Cymraeg â'i gilydd ar lawr y siop. Dwi ddim yn gwybod am siopau unigol, ond nid ydym yn hybu staff i siarad Cymraeg o'r brif swyddfa. Mae'n iawn i'r staff siarad Cymraeg gyda'i gilydd a gyda chwsmeriaid os ydynt yn dymuno, ond nid yw'n rhywbeth rydym yn ei hybu.”

Gwasanaethau Eraill

“Dwi ddim yn credu bod gennym bolisi laith Gymraeg”

Safbwynt Cymdeithas yr Iaith ydy y dylai pob archfarchnad ddod o dan y mesur iaith a'r gyfundrefn safonau.

Credwn y byddai hyn yn fodd i fynd i'r afael â gwendidau sylfaenol. Yn y cyfamser credwn fod dyletswydd foesol ar yr archfarchnadoedd i ddatblygu a chynnig gwasanaeth Cymraeg cyflawn.

**Grŵp Hawl i'r Gymraeg
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

Awst 2015